OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 573

# Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018

**Darparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig**

**5.**—(1) Yn rheoliad 3 (darparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig)—

(a) ym mharagraff (1)(d)(ii), yn lle "gofal seibiant" rhodder "seibiannau byr"; a

(b) mae paragraff (2) wedi ei hepgor.

(2) Ar ôl rheoliad 3 mewnosoder—

"**Gwasanaethau ar gyfer personau sydd y tu allan i'r ardal**

**3A.**—(1) Mae adran 14F o'r Ddeddf (gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig) yn gymwys i awdurdod lleol o ran y personau canlynol sydd y tu allan i ardal yr awdurdod lleol—

(a) plentyn perthnasol sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu a oedd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn union cyn i orchymyn gwarcheidiaeth arbennig gael ei wneud;

(b) gwarcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig i blentyn o'r fath;

(c) plentyn gwarcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig a grybwyllwyd yn is-baragraff (b).

(2) Ond mae adran 14F yn peidio â bod yn gymwys ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd o ddyddiad y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig ac eithrio mewn achos pan fydd yr awdurdod lleol yn darparu cymorth ariannol o dan Ran 3 ac y cafodd y penderfyniad i ddarparu'r cymorth hwnnw ei wneud cyn i'r gorchymyn gael ei wneud.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaethau cymorth gwarchodaeth arbennig i berson sy'n dod o fewn y personau hynny a restrir yn rheoliad 3A(1)(a) i (c), heb fod yn hwyrach na thri mis cyn diwedd y cyfnod o dair blynedd y cyfeirir ato ym mharagraff (2)—

(a) adolygu'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig a ddarperir i'r person hwnnw;

(b) hysbysu'r awdurdod lleol y mae'r person hwnnw yn byw ynddo am unrhyw angen parhaus am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig; ac

(c) atgyfeirio'r person hwnnw i wybodaeth, cyngor a chymorth lleol perthnasol.

(4) Nid yw unrhyw beth yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod lleol rhag darparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig i bersonau sydd y tu allan i'w ardal pan fydd yn ystyried ei bod yn briodol wneud hynny."